

Llanfachraeth i Lannerch-y-medd

Cyfleusterau ac Amwynderau:

Y Fali - Amrywiol

Llanfachraeth – Siop gyfleustra

Melin Llynon, Llanddeusant - Toiledau a Chaffi

Llannerch-y-medd – Caffi'r Stesion. Tafarn y Tarw. Siop gyfleustra.

Lleoliadau Stamp: Sant Bigail, Llanfigael. Melin Llynon, Llanddeusant. Pabo Sant, Llanbabo.

Cyfeiriadau:

1. Gan gychwyn o Faes Parcio y Fali (gyferbyn â Gwesty'r Fali), croeswch y ffordd yn ofalus i fod ar ochr y gwesty ac yna trowch i'r dde, ac yna i'r chwith wrth y groesffordd i Ffordd Caergybi, gan gerdded ar hyd blaen Gwesty'r Fali.
2. Pan fyddwch yn cyrraedd y groesfan i gerddwyr, croeswch drosodd a pharhewch yn yr un cyfeiriad, gan fynd heibio eglwys Sant Mihangel. Wrth y gyffordd ffordd go iawn nesaf (ychydig cyn i chi gyrraedd man gyferbyn â'r orsaf betrol), trowch i'r dde i Ben Dyffryn, ac yna i'r chwith i Ffordd Pendyffryn. Ar ôl i'r ffordd wyro o gwmpas i'r chwith, cadwch yn syth ar Manning Drive i'r gyffordd T.
3. Wrth y gyffordd T, trowch i'r dde (330 metr) a phan fydd palmant ar gael ar yr ochr arall i'r ffordd, croeswch drosodd yn ddiogel. Trowch i'r chwith i Benrodyn. Ar y gwyrriad i'r dde yn y ffordd, cadwch yn syth ar Fryn Moryd am 310 metr i gyrraedd cyfres o folardiau. Trowch i'r chwith yma i'r llwybr troed a'i ddilyn gan fynd heibio man parcio cyn parhau ar y llwybr troed i lawr i'r traeth.
4. Trowch i'r dde ar hyd y traeth a dilynwch y draethlin tan i chi gyrraedd y bae bach ychydig cyn Fferm Penrhyn Bach. Ar ben y bae hwn mae rhes amlwg o greigiau yn ymestyn tua'r môr o gât yn uwch i fyny'r traeth.
5. Tua'r tir o'r gât hon, mae llwybr yr arfordir yn parhau ac wedi'i nodi'n amlwg a'i ffinio gan ffens neu wrych. Mae'r llwybr yn troelli dros dir glaswellt neu leidiog, llwybr pren ac wrth gât mochyn, mae'r llwybr troed yn parhau ar hyd darn uchel o wal. Rydych yn cyrraedd pont droed dros Afon Alaw yn y pen draw, wedi'i haddurno â gwaith celf metel.

Dyluniwyd y gwaith celf ar y bont hon gan yr artistiaid Ann Catrin Evans a Catrin Meirion; mae'r gwaith wedi'i ysbrydoli gan fywyd gwyllt a golygfeydd o stori Branwen o'r Mabinogi. Mae'r chwedl yn hawlio bod Branwen wedi dod i orffwys yn y pen draw ar lannau aber afon Alaw. (4 cilomedr)

6. Ar ôl y bont, trowch i'r dde a dilynwch y llwybr eglur tan i chi gyrraedd gât mochyn. Drwy'r gât hon, trowch i'r dde eto a dilynwch y trac tarmac dros bont fach ac ymlaen tuag at Lanfachraeth. (600 metr)

7. Wrth y gyffordd T, trowch i'r dde i gyrraedd siop gyfleustra Premier (yr hen swyddfa bost). Trowch i'r chwith i gerdded ar hyd ffordd breswyl lai nesaf at siop Premier. Parhewch am 1.1 cilomedr ar y ffordd hon (parhewch heibio Fferm Bryn Farm a Llety'r Wennol) cyn troi i'r dde i lawr trac glaswellt wedi'i ffinio gan wrychoedd yn syth ar ôl tŷ Pen Parc. Ar ôl 550 medr, mae camfa yn croesi'r wal ar eich chwith - croeswch hon i fynd i mewn i'r cae y tu hwnt. Croeswch y cae gan gadw i'r dde o beilon a rhyw fymryn i'r dde o'r adeilad lliw hufen yn y pellter. Ewch drwy un o'r ddwy gât fferm gyfagos i fynd i mewn i gae arall. Yna dilynwch y wal ar eich chwith tan i chi gyrraedd camfa garreg i'r dde o gât fferm. Croeswch drosodd i gyrraedd y ffordd. (2 gilomedr)

Ar draws y ffordd mae Eglwys Sant Bigail; ail-adeiladwyd yr eglwys hon yn y 18fed ganrif ac mae'n cadw ei du mewn o ddiwedd yr oes Sioraidd. Mae'n gysylltiedig â Sant Bigail, sant o'r 5^{ed}/6^{ed} ganrif.

[Darganfyddwch fwy - Bigail](#)

Cyfeillion Eglwysi Difyfaill sy'n gofalu am yr eglwys bellach. [Darganfyddwch fwy](#)

Mae Eglwys Sant Bigail yn bwynt stamp Llwybr Cybi a Seiriol. *

8. Ewch tua'r gogledd ar hyd y ffordd (trowch i'r dde os ydych yn sefyll ar y ffordd yn edrych oddi wrth yr eglwys). Ewch heibio Tyddyn Watcyn ar eich chwith a pharhewch i gyffordd ffordd (560 medr).



9. Trowch i'r chwith wrth y gyffordd hon a cherddwch am 2.2 cilomedr i gyrraedd croesffordd. Trowch i'r chwith i ymweld â Melin Llynnon (300m).

Melin Llynnon yw'r felin wynt olaf i oroesi a'r unig un sy'n gweithio yng Nghymru. Fe'i hadeiladwyd ym 1775 a chafodd ei difrodi mewn storm ym 1918 ond parhaodd i weithredu fel melin fâl tan 1924, pan ddaeth difrod pellach o storm â'r malu i ben. Fe wnaeth y cyngor lleol adfer y felin i gyflwr gweithiol yn y 1980au, ond erbyn



2019 roedd wedi mynd â'i ben iddo eto. Cwblhawyd adferiad mawr yn 2024 gan ei berchennog, Richard Holt.

Mae'r felin bellach yn atyniad ymwelwyr poblogaidd â chaffi, siop a becws—yn enwog am ei “Mônuts”—yn ogystal â blawd sy'n cael ei falu ar y safle. Mae teithiau tywysedig ar gael. Ar y tir hefyd, ceir atgynyrchiadau o dai crynion Oes Haearn tebyg i'r rhai a oedd yn bodoli ar Ynys Môn tua 3,000 o flynyddoedd yn ôl, y gellir gweld eu holion yn ddiweddarach ar hyd Llwybr Cybi a Seiriol.

Mae Melin Llynnon yn bwynt stamp Llwybr Cybi a Seiriol. *

10. Ar ôl ymweld â'r felin, dychwelwch i'r groesffordd - trowch i'r chwith a dilynwch y ffordd drwy Landdeusant am 1.1 cilomedr tan y gyffordd ffordd gyntaf a Chapel Bethania. Mae gan Gapel Bethania hanes maith yn dyddio'n ôl i oddeutu 1795. Cafodd y capel ei ehangu yn ddiweddarach ym 1823, ei ailadeiladu ym 1844, â chynulleidfa gyfartalog o 200 ym 1851. Mae'n fan addoli arwyddocaol yn hanes crefyddol yr ardal.

11. O'r capel, dilynwch y ffordd chwith serth. Ychydig ar ôl y troad yn y ffordd wrth y tŷ, ceir golygfa dda ac yna chyffordd ffordd. Trowch i'r dde ac i fyny'r allt, arhoswch ar y ffordd hon am 2.9 cilomedr lle byddwch yn cyrraedd cyffordd ffordd nesaf at fferm.

12. Trowch i'r chwith tuag at Lanbabo a Rhosgoch a cherddwch i gyrraedd Eglwys Pabo Sant (240 medr).

Eglwys ganoloesol restredig Gradd II* o'r 12fed ganrif yw Eglwys Pabo Sant, y credir yn draddodiadol ei bod yn sefyll ar safle Cristnogol llawer cynharach a sefydlwyd oddeutu AD 460 gan Pabo Post Prydain.

Brenin rhyfelgar a oedd yn rheoli'r Penwynion oedd



Pabo, y mae ei deitl *Post Prydain* yn adlewyrchu ei enw o fod yn amddiffynnydd y gogledd Brythonaidd-Rufeinig (*Yr Hen Ogledd*) yn erbyn cyrchoedd gan y Pictiaid a'r Albanwyr. Yn ddiweddarach yn ei fywyd, dilynodd batrwm a oedd yn gyffredin ymhlith arweinwyr cynnar Prydain, gan ildio ei orsedd, croesawu Cristnogaeth, ac ymddeol i fywyd o addoliad crefyddol. Ef oedd taid Sant Deiniol o Fangor hefyd.



Mae'r eglwys yn nodedig am ei mynwent gron, sy'n awgrymu sylfaen Gristnogol Geltaidd gynnar, ac am ddelw garreg wedi'i cherfio y credir ei bod yn coffau Pabo Sant. Mae llawer o'r adeilad yn dal heb ei newid i raddau helaeth, sy'n ei wneud yn orosiad prin ac arwyddocaol o bensaerniaeth ganoloesol ar Ynys Môn.

13. O Eglwys Pabo Sant, dychwelwch i'r gyffordd ffordd wrth y fferm. Dilynwch y ffordd ar y chwith gan gadw'n gyfochrog â'r gronfa ddŵr tan i chi gyrraedd troad i'r chwith â'r arwydd 'Alaw' ar ben gwaelod y gronfa ddŵr (1.4 cilomedr). Trowch i'r ffordd hon (mae llwybrau troed yn rhedeg ochr yn ochr â'r dŵr) a pharhewch heibio argae Llyn Alaw tan i chi gyrraedd Gwaith Trin Dŵr Llyn Alaw. Cadwch i'r dde a pharhewch ar y trac graean heibio'r gwaith trin dŵr. Ychydig cyn ael y bryn, byddwch yn cyrraedd gât â lle cerdded i'w chwith - parhewch yn syth ymlaen. Ar ôl rhan lawr allt, byddwch yn cyrraedd man troi i'r chwith o'r trac - croeswch ar draws y man troi i ddilyn llwybr troed cyhoeddus i lawr yr allt trwy lwyni ac yna dros wal cronfa ddŵr. (1.8 cilomedr)

Saib y Pererin

[what3words ///crackles.tango.learning](http://what3words.com/crackles.tango.learning) Cyfeirnod grid OS SH 3838 8522

14. Parhewch i'r chwith ar hyd lan y gronfa ddŵr am oddeutu 30 medr. Ychydig cyn pont droed fach wedi'i gwneud o ddwy astell bren, trowch i'r dde tuag at gamfa fetel heb fod yn bell i fwrdd. Mae arwyddion yn dangos y llwybr ar gyfer 'Llwybr Cylchol Ceidio'. Croeswch ar draws y gamfa fetel a pharhewch ar hyd ffin chwith y cae tan y gornel chwith uchaf lle'r ydych yn croesi nant ac yna chamfa fetel. Croeswch y trac ac ewch yn syth drosodd i gât fetel ddwbl yn mynd i mewn i gae â thyrbîn gwynt. Trowch i'r dde yn syth pan fyddwch yn y cae a dilynwch y ffin dde tan i chi gyrraedd camfa fetel ar ben pont bren. (Yn 2024 roedd y caeau nesaf yn lleidiog a gwlyb iawn, felly cymerwch ofal wrth eu croesi). Croeswch y cae nesaf gan gadw tua'r chwith, tuag at y gornel chwith uchaf (dros y gorwel i gychwyn). Croeswch y gamfa fetel a llwybr pren i fynd i'r cae y tu hwnt. Dilynwch y ffin ar eich chwith ac yna croeswch gornel y cae i gyrraedd gât mochyn fetel. Ar ôl mynd drwy'r gât mochyn, ewch ar y ffordd o'ch blaen. (1.3 cilomedr)

15. Trowch i'r chwith ar y ffordd a pharhewch ar hyd y 2 gilomedr i gyffordd T lle'r ydych yn troi i'r dde. Ar ôl 200 medr arall, trowch i'r chwith ar y briffordd a pharhewch am bellter byr i gyrraedd maes parcio'r hen stesion ar y dde. Yma, byddwch yn dod o hyd i fwrdd gwybodaeth yn dangos hanes Llannerch-y-medd, yn ogystal â chaffi a gerddi cymunedol.